Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams

# Datganiad Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn 2024-25

Dyrennir y Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025. Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

## Trosolwg Ysgol

| Manylion | Data |
|---|---|
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 256 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 8.6% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 01.04.24 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | 09.01.25 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Sir Gaerfyrddin |
| Yn arwain ar y GDD | Mrs Angharad Williams (Pennaeth) |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Mr Mathew Davies (Cadeirydd) |

## Trosolwg Cyllid

| **Manylion** | **Swm** |
| --- | --- |
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | |
| **GDD**<br>**Grant Datblygu Disgyblion 'Llyfnhau'** | £33,350<br>£1,844 |
| **EYPDG** | £11,500 |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £46,694 |

**Datganiad o Fwriad**

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y camau a ganlyn:

1. nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
2. cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin a'r Partneriaeth, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- gyflogi staff sydd yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth penodol a fydd yn codi safonau cyrhaeddiad y disgyblion.
- darparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf ac yn gynaliadwy - 'ELSA', Ci Therapi, Ditectifs Meddwl, Tric a Chlic, Attention to Autism.
- ryddhau athrawon i gefnogi disgyblion PYD i drafod targedau personol penodol a gweithredu arnynt.

Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion am sut rydym yn gwario'r grant ar gael yn yr ysgol.